

Costau a chost-ffeithiolrwydd gwahanol fodolau gwasanaeth gofal lliniarol, gan ganolbwyntio ar ofal diwedd oes: Adolygiad Cyflym

Rhif Adroddiad RR0020 (Chwefror 2024)

CRYNODEB GWEITHREDOL

Beth yw Adolygiad Cyflym?

Mae ein hadolygiadau cyflym (RR) yn defnyddio amrywiad ar y dull adolygu systematig, gan dalfyrru neu hepgor rhai cydrannau i gynhyrchu'r dystiolaeth i hysbysu rhanddeiliaid yn brydlon gan gadw sylw at ragfarn ar yr un pryd.

Ar gyfer pwy mae'r Adolygiad Cyflym hwn?

Awgrymwyd y cwestiwn adolygu gan dîm Cynllun Cyflawni Gofal Lliniarol a Diwedd Oes. Y gynulleidfa arfaethedig yw comisiynwyr gwasanaethau gofal lliniarol a llunwyr polisi.

Cefndir / Nod yr Adolygiad Cyflym

Mae rhai pobl yn derbyn gofal lliniarol neu ofal diwedd oes gartref, eraill mewn ysbytai neu hosbisau, neu gyfuniad o fodolau cartref a hosbis/cartref ac ysbyty. Nod yr adolygiad cyflym hwn yw pennu costau a chost-ffeithiolrwydd gwahanol fodolau gwasanaeth gofal lliniarol neu ofal diwedd oes. Cynhelir yr astudiaethau hyn yn bennaf o safbwynt y system gofal iechyd, gan ddiystyru costau sy'n gysylltiedig â baich economaidd cleifion/gofalwyr.

Canlyniadau

Y sylfaen dystiolaeth

- Cafodd astudiaethau eu cynnwys os cawsant eu cyhoeddi rhwng 2003 a 2023. Cynhaliwyd chwiliadau cronfa ddata ym mis Hydref 2023.
- Cafodd 48 o astudiaethau sylfaeno eu cynnwys (roedd n = 39 yn ddadansoddiadau cost, roedd n = 1 yn Adenillion Cymdeithasol o Fuddsoddi (SROI), roedd n = 5 yn werthusiadau economaidd llawn ac roedd n = 3 yn astudiaethau modelu Markov)

Canfyddiadau allweddol

- Mae yna lawer o fodolau o ofal lliniarol, sy'n cael eu diffinio fel unrhyw fodel gofal strwythuredig sy'n cynnwys cydrannau lluosog, ar gyfer pobl sydd â salwch difrifol, cymhleth, ac yn aml terfynol. Diffinnir gofal 'diwedd oes' fel gofal am flwyddyn olaf bywyd.
- Mae'r ffordd mae costau gofal lliniarol a gofal diwedd oes yn cael eu cyfrifo a'u cyflwyno yn amrywio. Er enghraifft, cyrifodd un astudiaeth fod cost fesul diwrnod am ofal hosbis yn £151 — £237. (Mitchell et al., 2020) Fodd bynnag, roedd astudiaethau eraill yn defnyddio cyfanswm y gost gymedrig fesul arhosiad hosbis (o hyd amrywiol) ar £2,483 yn y flwyddyn gost 2023. (Huskamp et al., 2008) Oherwydd hyd amrywiol aros, nid yw'r costau gofal lliniarol hyn yn gymharol.
- Adroddwyd dadansoddiadau costau ar gyfer modelau ysbyty, hosbis, gofal lliniarol cartref a chymunedol, yn ogystal â modelau gofal lliniarol sy'n canolbwyntio ar ofal sylfaenol a chymysg. Yn gyffredinol, roedd y dadansoddiadau costau o safbwynt y system gofal iechyd. Yn gyffredinol, gofal lliniarol yn yr ysbyty yw'r mwyaf costus, gydag ystod o gostau rhwng £10,000 a £64,000 fesul marwolaeth mewn ysbyty ym mhrisiau 2023. (Kerr et al., 2017; Sellars et al., 2019) Roedd costau gofal diwedd oes hosbis yn amrywio rhwng £2,000 a £16,000 ym mhrisiau 2023. (Huskamp et al., 2008) Dim ond un astudiaeth oedd yn amcangyfrif cost gofal lliniarol pediatriig, a oedd yn amrywio o £13,000 i £16,000 fesul marwolaeth ym mhrisiau 2023. (Gans et al., 2016) (Bentur et al., 2014; Spiro et al.,

2020)O ran gofal lliniarol yn y cartref a'r gymuned, roedd y costau ar gyfer gofal diwedd oes yn amrywio o £900 - £21,000 ym mhrisiau 2023. O ran y modelau cyfunol o astudiaethau gofal lliniarol, roedd costau gofal diwedd oes yn amrywio o £5,000 i £41,000 ym mhrisiau 2023(Kalluri et al., 2020; Tanuseputro et al., 2015).

- **Mae costau gofal diwedd oes ysbytai yn tueddu i fod yn uwch** na gofal diwedd oes hosbis. Gofal lliniarol cartref yw'r model lleiaf costus mewn llawer o astudiaethau. (Duncan et al., 2019; Saygili & Çelik, 2019; Yi et al., 2020)
- Fe wnaeth rhan fwyaf o astudiaethau gofal lliniarol yn yr ysbyty ganfod bod costau wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod 30 diwrnod olaf bywyd(Pollock et al., 2022; Tan & Jatoi, 2011). Fodd bynnag, roedd rhywfaint o dystiolaeth bod **ymgyngoriadau lliniarol cyn marwolaeth** yn arwain at benderfyniadau i roi'r gorau i rai triniaethau costus ac **arbedion costau o ganlyniad**. (Hanson et al., 2008; Isenberg et al., 2017; McCarthy et al., 2015)
- Mae gofal lliniarol yn fwy costus ar ddiwrnodau cyntaf ac olaf gofal diwedd oes mewn hosbisau ac yn llai costus i bobl oedrannus (yn UDA) mewn gofal preswyl (oherwydd systemau yswiriant meddygol UDA fel Medicare sy'n cyfrif am iechyd a gofal cymdeithasol ar wahân). (Comans et al., 2021)
- Mae **cynllunio gofal uwch yn fwy costus ond yn fwy effeithiol** wrth hwyluso cadw at ddewisiadau cleifion ar gyfer gofal diwedd oes(Sellars et al., 2019).
- Mae **cymorth gofal lliniarol ychwanegol i blant** ag anghenion gofal lliniarol (a dderbyniodd ymyrraeth Partners for Children) yn **costio £4,976 yn llai na'r gofal arferol** heb y cymorth ychwanegol. (Gans et al., 2016)
- Adroddodd canfyddiadau o'r 11 dadansoddiad cost o **fodelau cartref** o ofal lliniarol a gofal diwedd oes **naill ai ganfyddiadau cadarnhaol** (n=6) neu **ganfyddiadau niwtral** (n = 5).
- Mae gofal anffurfiol yn gwneud cyfraniad ariannol sylweddol i fodelau gofal lliniarol yn y cartref. (Butler et al., 2022; Chai et al., 2014)
- Roedd model cartref gofal preswyl o ofal diwedd oes (Amador et al., 2014) a model yn y gymuned o ofal lliniarol pediatrig yn lleihau costau gofal iechyd. (Goldhagen et al., 2016)
- Nid oes llawer o dystiolaeth am gost-effeithiolrwydd modelau cymunedol o ofal lliniarol a gofal diwedd oes. Fe wnaeth un astudiaeth ganfod bod gofal lliniarol yn y cartref yng Nghanada yn gost-effeithiol. (Pham & Krahn, 2014) Roedd gofal lliniarol cartref yn yr Eidal ar gyfer pobl â sglerosis ymledol difrifol yn debyg i ofal arferol o ran cost-effeithiolrwydd. (Rosato et al., 2021)

Goblygiadau Ymchwil a Bylchau Tystiolaeth

Mae angen mwy o ymchwil yn y DU ar effeithiau costau gwasanaethau newydd fel Gofal Cymorth Gwell (ESC).

Dylai ymchwil yn y dyfodol ystyried pa ddulliau sydd fwyaf priodol i werthuso modelau gofal lliniarol. Efallai na fydd methodoleg safonol, megis cyfrifo blynyddoedd bywyd a addaswyd yn ôl ansawdd (QALYs), yn fwyaf priodol ar gyfer y boblogaeth diwedd oes hon. Efallai nad gwella QALYs yw nod arfaethedig gofal lliniarol nac ymyriadau diwedd oes, a gall ymestyn marwolaeth fod yn anghyson â dewisiadau a dymuniadau cleifion. Roedd ansawdd a chymhwysedd y dystiolaeth y gwnaethom ni ddarganfod yn ein hadolygiad cyflym yn amrywiol, ac felly, mae ansicrwydd yn parhau, yn enwedig pan nad oedd persbectif dadansoddiad wedi'i nodi'n glir. Felly, roedd yn anodd canfod a ystyriwyd yr holl gostau perthnasol. Nid oedd rhagdybiaethau ar gostau yn amrywio mewn llawer o astudiaethau, ac roedd gan y rhan fwyaf o astudiaethau orwelion amser gwahanol.

Goblygiadau Polisi ac Ymarfer

- Mae'r adolygiad cyflym hwn wedi dangos bod **costau gofal lliniarol yn yr ysbyty yn uwch na hosbis neu ofal lliniarol cartref**. Mae hyn yn awgrymu y **dylai gofal lliniarol cartref fod ar gael i bob** claf mewn cyfnod diwedd oes adnabyddadwy sy'n dymuno aros a marw gartref.

- Dylai cynllunwyr gofal iechyd **anelu at leihau derbyn i'r ysbyty ar ddiwedd oes** ond **dim ond os caiff mynediad at ofal cartref o safon** ar ddiwedd oes ei sicrhau.
- Dylai **cleifion gael dewis** ynghylch ble mae'n well ganddynt farw heb symud y costau o'r system gofal iechyd i'r rhai sy'n rhoi gofal cartref, gan wneud y costau'n anweledig.

Ystyriaethau economaidd

Gall costau iechyd a gofal cymdeithasol wrth agosáu at ddiwedd oes fod yn hynod o uchel, yn enwedig os cânt eu derbyn dros gyfnod hir mewn lleoliad aciwt. Gall marwolaethau mewn lleoliadau cartref fod yn llai costus na marwolaethau mewn lleoliadau aciwt, ond mae mwy o faich ar ofalwyr anffurfiol (er y gall hefyd fod yn werth chweil yn bersonol), a gall costau ddod yn 'anweledig. Gall lleihau derbyn i'r ysbyty ar ddiwedd oes drwy drosglwyddo i hosbis neu ofal cartref arwain at arbedion costau yn ogystal â darparu dewis arall gwell a ffafriol i gleifion. Gallai gostyngiad o 10% mewn derbyniadau heb eu cynllunio i ysbyty ynghyd â gostyngiad o 3 diwrnod yn y cyfnod arhosiad ymysg cleifion canser diwedd oes a methiant organau yn Lloegr drwy ddefnyddio mwy o adnoddau hosbis, cartref neu gymunedol leihau costau diwedd oes £168miliwn* a £108miliwn* yn y drefn honno. (Hatziandreu et al., 2008) Gall dadansoddiad cyfoes o garfan Gymreig hwyluso nodi senarios arbed costau gofal diwedd oes posibl yng Nghymru.

**Wedi'i chwyddo o brisiau 2007 i brisiau 2023 gan ddefnyddio cyfrifiannell chwyddiant Banc Lloegr.*